



Rhif: WG45673

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Trefniadau sefydlu statudol athrawon newydd
gymhwyso yng Nghymru

Gorffennaf 2022

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymgynghoriad ar 'Trefniadau sefydlu statudol athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru' a gyhoeddwyd ar 14 Chwefror 2022, yr ymatebion a gafwyd i gwestiynau'r ymgynghoriad a'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd o ganlyniad i'r adborth a gyflwynwyd.

Y camau y mae angen eu cymryd

Er gwybodaeth yn unig y mae'r ddogfen hon.

Gwybodaeth bellach a dogfennau perthnasol

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Cangen Addysgeg, Safonau Proffesiynol a Safon Uwch
Is-adran Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: inductioninfo@llyw.cymru



@LIC_Addysg



Facebook/AddysgCymru

Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennaeth ymgynghori ar ffurf electronig yn unig ac maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfennaeth ymgynghori: [Trefniadau sefydlu statudol athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru](#)

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Y broses ymgynghori	4
Crynodeb o'r ymatebion	4
Cwestiwn 1 – hyd y cyfnod sefydlu	4
Cwestiwn 2 – lleiafswm hyd cyfnod sefydlu	6
Cwestiwn 3 – cyfnod o gyflogaeth barhaus	8
Cwestiwn 4 – canlyniad y cyfnod sefydlu	9
Cwestiwn 5 – y rheol pum mlynedd	10
Cwestiwn 6 – Unedau cyfeirio disgyblion (UCDau)	11
Cwestiwn 7 – rôl y corff priodol	12
Cwestiwn 8 – canlyniad y cyfnod sefydlu	14
Cwestiwn 9 – ariannu mentoriaid sefydlu	15
Cwestiwn 10 – amseriad gweithredu	16
Cwestiwn 11 – dysgu proffesiynol	17
Cwestiwn 12 – effaith ar y Gymraeg	19
Cwestiwn 13 – newid cynigion i gefnogi'r Gymraeg	20
Cwestiwn 14 – sylwadau eraill	21
Ymateb Llywodraeth Cymru	23
Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad	26

Cyflwyniad

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad i lywio ein cynigion ar gyfer diwygio'r trefniadau sefydlu statudol ar gyfer athrawon newydd gymhwyso (ANGau) yng Nghymru, yn unol â'n gweledigaeth ar gyfer addysg yng Nghymru.

Mae'r newidiadau arfaethedig yn ymwneud â'r canlynol

- amser
- cymorth i'r ANG
- lleoliadau lle gellir cynnal cyfnod sefydlu
- llywodraethu a rolau.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros gyfnod o wyth wythnos rhwng 14 Chwefror ac 8 Ebrill 2022, a hynny er mwyn sicrhau nad oedd disgwyl i'r sector ymateb i ymgynghoriad yn ystod gwyliau Pasg yr ysgolion.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gyflwynwyd ac ymateb Llywodraeth Cymru.

Y broses ymgynghori

Gofynnwyd 14 o gwestiynau i gyd, a arweiniodd at 189 o ymatebion yn ystod y cyfnod ymgynghori. Cyflwynwyd 177 o ymatebion drwy'r ymgynghoriad ar-lein, a oedd yn cynnwys 135 o ymatebion cyflawn a 42 o ymatebion rhannol. Cyflwynwyd 11 o ymatebion eraill drwy e-bost ac un ymateb drwy'r post. Ni ddefnyddiwyd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad mewn tri o'r ymatebion a e-bostiwyd ac nid oeddent yn rhoi atebion i'r cwestiynau unigol a ofynnwyd. Felly, nid yw'r tablau o ystadegau a geir drwy'r ddogfen gyfan hon yn cynnwys yr ymatebion hynny. Fodd bynnag, mae'r sylwadau a gyflwynwyd yn yr ymatebion hynny wedi cael eu hystyried.

Cyflwynwyd ymatebion gan ANGau, unedau cyfeirio disgyblion (UCDau), mentoriaid sefydlu, gwirwyr allanol, cyrff priodol, rhanddeiliaid ym maes addysg, awdurdodau lleol ac undebau'r gweithlu addysg.

Cyflwynwyd 157 o ymatebion i gyd lle na roddwyd enw na sefydliad, neu lle roedd yr ymatebydd yn gofyn am i'w ymateb gael ei drin fel un dienw. Mae dymuniadau'r rhai a oedd am aros yn ddiennw wedi cael eu parchu yn yr adroddiad cryno hwn.

Ceir rhestr o'r ymatebwyr nad oeddent am fod yn ddiennw yn Atodiad A.

Crynodeb o'r ymatebion

Cwestiwn 1 – hyd y cyfnod sefydlu

A ddylid dileu'r gofyniad presennol i gwblhau cyfnod sefydlu o dri thymor/380 o sesiynau er mwyn cwblhau'r cyfnod sefydlu'n llwyddiannus, er mwyn rhoi hyblygrwydd a galluogi athrawon newydd gymhwyso (ANGau) sy'n dangos ymarfer effeithiol ac sy'n cyrraedd y safonau mewn llai o amser gwblhau'r cyfnod sefydlu?

	Ymatebion cyflawn i'r arolwg		Ymatebion rhannol i'r arolwg		Ymatebion all-lein		Cyfanswm	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Cytuno	82	60.7%	21	50%	8	89%	111	59.7%
Anghytuno	46	34.1%	14	33.3%	1	11%	61	32.8%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	7	5.2%	2	4.8%	0	0%	9	4.8%
Nwl	0	0%	5	11.9%	0	0%	5	2.7%
Cyfanswm	135	100%	42	100%	9	100%	186	100%

Roedd bron 60% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn a gwnaeth 57 ohonynt sylwadau ychwanegol. O'r ymatebion (gan gynnwys y rhai a oedd yn anghytuno), roedd y mwyafrif llethol yn cytuno ag egwyddor trefniadau sefydlu mwy hyblyg. Fodd bynnag, roedd rhai yn cwestiynu sut y byddai hyn yn gweithio'n ymarferol, ac a fyddai ANGau yn teimlo o dan bwysau i gwblhau'r cyfnod sefydlu mewn llai o amser.

Roedd rhai o'r sylwadau ategol yn cytuno y byddai rhoi mwy o hyblygrwydd o ran hyd y cyfnod sefydlu yn fwy cynhwysol, drwy roi cyfle i'r rhai a all ddangos profiad a chyrraedd y safonau ganolbwyntio ar eu hymarfer yn hytrach na chyfrif sesiynau.

'Mae rhai athrawon fel minnau yn ymuno â'r proffesiwn ar ôl addysgu mewn addysg uwch/addysg bellach neu mae ganddynt gyfoeth o brofiad o gyflwyno dysgu seiliedig ar waith. Mae hyn yn golygu y byddai'r opsiwn i gwblhau'r cyfnod sefydlu mewn llai o amser yn fuddiol i'r rhai sy'n cyrraedd y safonau ynghynt.' Dienw

'Rydym yn cytuno â'r cynnig hwn. Bydd hyn yn rhoi disgrisiwn i'r cyrff priodol wneud argymhelliad cadarnhaol ar gyfer yr ANGau hynny sy'n cyrraedd y safonau proffesiynol ar lefel sefydlu cyn cwblhau 380 o sesiynau. Mae'n cael gwared ar y baich ar ANGau i barhau â'r broses yn ystod ail flwyddyn academaidd ac yn lleihau'r pwysau ar y cyrff priodol i gadw llygad ar y broses o gwblhau'r sesiynau ychwanegol hynny yn y flwyddyn academaidd ddilynol cyn prosesu'r penderfyniad. Bydd yn atgyfnerthu'r neges mai proses yw cyfnod sefydlu ANGau sy'n eu helpu i gyrraedd y safon, yn hytrach na ras neu ymarfer ticio blychau.' Awdurdod Lleol Abertawe

'Mae'r Cyngor yn cefnogi'r argymhelliad i ddileu'r gofyniad ar ANGau i gwblhau tri thymor ysgol/380 o sesiynau er mwyn cwblhau'r cyfnod sefydlu'n llwyddiannus, a rhoi hyblygrwydd yn hyn o beth.' Cyngor y Gweithlu Addysg

Roedd eraill a oedd yn cytuno â'r cynnig am sicrhau y byddai mesurau diogelu ar waith i sicrhau na fyddai ANGau yn teimlo o dan bwysau i gwblhau'r cyfnod sefydlu yn gynnar, ac y byddent yn gallu cael cymorth o hyd am o leiaf flwyddyn/tri thymor.

'Mae ASCL Cymru yn cytuno â hyn. Byddai dileu'r gofyniad hwn yn rhoi mwy o hyblygrwydd ac yn adlewyrchu amgylchiadau penodol unigolion sy'n mynd drwy'r broses hon, ar yr amod y gall yr unigolyn ddangos ei fod/ei bod wedi cyrraedd y safonau gofynnol. Fodd bynnag, bydd angen cadw cydbwysedd yn y system er mwyn sicrhau bod yr ymgeisydd wedi cael ei baratoi'n addas i addysgu lle mae'r

cyfnod sefydlu yn llai na 380 o sesiynau. Yn yr un modd, ni ddylai fod pwysau ar unigolion i gwblhau'r cyfnod sefydlu cyn cwblhau tri thymor lle nad ydynt yn teimlo eu bod yn barod i wneud hynny. Ni ddylai'r newid hwn mewn terfynau amser fynd yn ras.' ASCL Cymru

'Os cyflwynir yr hyblygrwydd i orffen y cyfnod sefydlu ynghynt, mae'n hanfodol mai dewis yr ANG fydd hyn o hyd ac y dylai fod gan bob ANG yr hawl i gael y cymorth a'r cyfleoedd datblygu a gynigir yn ystod y cyfnod sefydlu am o leiaf eu blwyddyn addysgu gyntaf (neu'r hyn sy'n cyfateb os ydynt yn rhan amser) ac ni ddylai fod unrhyw afles iddynt drwy arfer yr hawl hon.' NASUWT Cymru

Ymhlith y rhai a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig hwn, roedd rhai yn cytuno y dylid rhoi rhywfaint o hyblygrwydd ac y byddai blwyddyn lawn o gymorth yn ffordd well o baratoi ANGau ar gyfer eu gyfaoedd yn y dyfodol.

'Fodd bynnag, dim ond yn achos ANGau sydd wedi cwblhau'r 380 o sesiynau bron i gyd a lle mae pawb yn cytuno eu bod yn barod i gwblhau'r cyfnod sefydlu, dylai fod rhywfaint o hyblygrwydd gan y corff priodol.' Dienw

'Rwy'n teimlo bod cyfiawnhad dros hyn yn achos rhai ANGau ond bydd angen mwy o amser o hyd ar y mwyafrif i ddangos eu bod yn meddu ar yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ddangos ymarfer effeithiol a chyrraedd y safonau.' Dienw

'Fel ANG, mae'r flwyddyn sefydlu hon yn werthfawr dros ben. Mae'r broses fentora yn eich paratoi'n addas ar gyfer eich gyrfa yn y dyfodol ac rwy'n credu ei bod yn hanfodol.' Dienw

Cwestiwn 2 – lleiafswm hyd cyfnod sefydlu

A ddylid cyflwyno lleiafswm i hyd cyfnod sefydlu o un tymor (neu gyfnod cyfatebol) er mwyn galluogi ANGau sy'n dangos ymarfer effeithiol ac sy'n bodloni'r safonau proffesiynol i gwblhau'r cyfnod sefydlu'n llwyddiannus? (Ni fyddai disgwyl i unrhyw ANG gwblhau'r cyfnod sefydlu o fewn y lleiafswm amser hwn.)

	Ymatebion cyflawn i'r arolwg		Ymatebion rhannol i'r arolwg		Ymatebion all-lein		Cyfanswm	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Cytuno	60	44.4%	16	38.1%	3	33%	79	42.5%
Anghytuno	68	50.4%	17	40.5%	5	56%	90	48.4%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	7	5.2%	4	9.5%	1	11%	12	6.4%
Nwl	0	0%	5	11.9%	0	0%	5	2.7%
Cyfanswm	135	100%	42	100%	9	100%	186	100%

Mae'r sylwadau yn awgrymu bod y mwyafrif llethol yn cefnogi'r egwyddor o roi hyblygrwydd o ran hyd y cyfnod sefydlu. Fodd bynnag, nid oedd cytundeb cyffredinol ynglŷn â'r cynnig hwn, gyda 48% o'r ymatebwyr yn anghytuno, 42% yn cytuno a 6% ddim yn cytuno nac yn anghytuno. O'r rhai a oedd yn anghytuno, y pryder mwyaf cyffredin oedd y gall cyflwyno

lleiafswm o un tymor arwain at ddisgwyliad cyffredinol y dylai ANGau gwblhau'r cyfnod sefydlu o fewn tymor.

Cydnabu'r rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig mai rhywbeth nominal fyddai lleiafswm o dymor yn hytrach na'r hyn a fyddai'n digwydd mewn gwirionedd, y byddai'n rhoi hyblygrwydd i ANGau â phrofiad blaenorol ac na fyddai'n creu disgwyliad y gellid cwblhau'r cyfnod sefydlu o fewn tymor.

'Bydd gan amrywiaeth eang o ymgeiswyr brofiadau gwahanol cyn dechrau'r cwrs a byddai'n llawer mwy synhwyrol i'r cyfnod sefydlu adlewyrchu hyn.' Dienw

Roedd eraill yn cytuno ac yn dymuno sicrhau y byddai'n amlwg i ANGau a'r rhai sy'n gweithio gyda nhw y bydd y rhan fwyaf o ANGau yn cymryd tua thri thymor i ddatblygu eu hymarfer i'r lefel ddisgwyliedig a chyrraedd y safonau.

'Bydd angen nodi'r disgwyliadau'n glir iawn i ANGau nad yw hyn yn rhywbeth arferol ac y bydd yr angen i ymgorffori ymarfer a datblygu sgiliau a dealltwriaeth o'r holl agweddau ar y safonau proffesiynol yn cymryd mwy na thymor/dau hanner tymor yn olynol.' Dienw

'Ni welwn unrhyw anfantais mewn gosod lleiafswm, ac mae'n siŵr mai doeth fyddai gwneud hynny er mwyn osgoi unrhyw amwysedd, ac er mwyn sicrhau y darperir y gefnogaeth briodol.' UCAC

'Cytuno, ond lleiafswm o ddau dymor. Rwy'n teimlo y gallai ymgais i fodloni'r gofynion mewn tymor o bosibl roi ANGau o dan lawer o bwysau am resymau amrywiol. Rwy'n teimlo bod lleiafswm o ddau dymor yn cynnig gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ac yn cefnogi llesiant staff.' Dienw

Yn yr un modd, ymhlith y rhai a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig, eu prif bryder oedd bod un tymor yn rhy fyr i ANGau gael profi amrywiaeth o gyfleoedd ac y gallent deimlo o dan bwysau i gwblhau'r cyfnod sefydlu o fewn y lleiafswm cyfnod.

'Mae'n rhoi'r argraff bod modd profi'r holl safonau addysgu mewn tymor. Os na fyddai disgwyl i neb ei gwblhau yn ystod y cyfnod hwn, pam cynnig hyn.' Dienw

'Ni fydd ANG yn derbyn amrediad digonol o brofiadau mewn un tymor.' Dienw

'Gallai cael isafswm cyfnod olygu bod rhai mentoriaid yn teimlo dan bwysau i basio ANG nad ydynt yn barod mewn gwirionedd, ac yn yr un modd, i rai ANG deimlo dan bwysau i basio pan nad oes ganddynt contractau hirach.' Dienw

'Bydd angen i'r canllawiau cenedlaethol ar y lleiafswm o sesiynau gofynnol fod yn glir a nodi'r hyn sy'n wahanol i'r trefniadau presennol. Mae posibilrwydd mawr y bydd rhai ymarferwyr yn camddeall y term 'gofyniad sylfaenol' ac yn tybio, yn syml, fod y trefniadau presennol (h.y. 380) wedi cael eu lleihau. Os nad oes disgwyl i unrhyw ANG gwblhau o fewn y lleiafswm amser hwn, beth yw'r diben?' Dienw

'Rydym yn pryderu hefyd y byddai unrhyw ANG sy'n dysgu'r sgiliau a'r wybodaeth ac yn cael y profiad i'w alluogi i ddangos y safonau proffesiynol a chwblhau'r cyfnod sefydlu mewn cyfnod mor fyr yn colli'r cymorth a gynigir i ANGau ac sydd ei angen

Cwestiwn 3 – cyfnod o gyflogaeth barhaus

O fis Medi 2023 ymlaen, a ddylai fod yn ofynnol i bob ANG weithio cyfnod o gyflogaeth barhaus mewn un ysgol o un tymor/dau hanner tymor yn olynol o leiaf (neu gyfnod cyfatebol i weithwyr rhan amser) ar ryw adeg yn ystod eu cyfnod sefydlu?

	Ymatebion cyflawn i'r arolwg		Ymatebion rhannol i'r arolwg		Ymatebion all-lein		Cyfanswm	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Cytuno	81	60%	24	57.1%	4	44%	109	58.6%
Anghytuno	34	25.2%	12	28.6%	3	33%	49	26.3%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	20	14.8%	1	2.4%	2	22%	23	12.4%
Nwl	0	0%	5	11.9%	0	0%	5	2.7%
Cyfanswm	135	100%	42	100%	9	100%	186	100%

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn mewn egwyddor ond mynegwyd pryder ynglŷn â sut y byddai'n cael ei roi ar waith yn ymarferol. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn cytuno y byddai cyfnod estynedig o gyflogaeth yn rhoi cyfle i ANGau ddatblygu eu hymarfer. Cyfeiriwyd at lwyddiant cynllun lleoli ANGau Llywodraeth Cymru sydd wedi bod ar waith yn ystod y flwyddyn academiaidd 2021/22 er mwyn cefnogi'r ANGau hynny yr amharwyd ar eu profiad o addysgu gychwynnol i athrawon oherwydd y pandemig.

'Rwyf wedi cael budd mawr iawn o hyn. Ar ôl gorffen fy TAR a methu â chael swydd addysgu barhaol, nid oeddwn am wneud gwaith cyflenwi mewn gwirionedd. Y tebyg yw na fyddwn wedi aros yn y sector addysgu ar ôl fy TAR oni bai am y cynllun a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae dau dymor mewn ysgol gefnogol wedi tanio fy mrwdfrydedd dros addysgu unwaith eto ac wedi fy helpu i fagu hyder.' Dienw

'Gorau po gyntaf y caiff ei roi ar waith i ANGau ac ysgolion, yn fy marn i, am y bydd yn golygu bod mwy o athrawon cymwysedig ar gael yng Nghymru.' Luke Dempsey

'Byddai treulio amser parhaus mewn ysgol yn fanteisiol i ANG gan y byddai cyfle i arsylwi a bod yn rhan o fywyd pob dydd mewn ysgolion. Byddai hyn yn fanteisiol hefyd wrth gasglu profiadau gwerthfawr.' Dienw

'Rydym yn cytuno y byddai hyn yn ddefnyddiol, er mwyn sicrhau cysondeb profiadau a chymorth. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar ansawdd y cymorth a roddir gan yr ysgol a'r mentor sefydlu. Mae cyfnod o chwe wythnos yn ei gwneud yn bosibl i ANGau gynllunio ar gyfer dilyniant o wersi. Byddai hyn yn helpu'r ANG i ddatblygu a chynnal ei ymarfer mewn meysydd pwysig, megis cynllunio i ddiwallu anghenion disgyblion sydd ag ystod o alluoedd, gan helpu disgyblion i ddatblygu eu sgiliau a datblygu eu dulliau asesu.' Estyn

'Cytunwn yn gryf â'r cynnig hwn mewn egwyddor...Fel noda'r ddogfen ymgynghorol, bydd angen rhoi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod y cyfle hwn yn bosib, ac yn cael ei

warantu, i ANGiaid. Ni ddylai peidio cael swydd sefydlog o'r fath fod yn rhwystr i unrhyw un rhag cwblhau eu Cyfnod Sefydlu. Yn sicr, mae 'na botensial i'r model clwstwr gafodd ei beilota, yn ogystal â'r Cynllun Lleoliad Sefydlu yn sgil y pandemig. Rydym yn derbyn y gallai fod yn heriol i sicrhau'r trefniadau priodol erbyn mis Medi 2022, ac felly y dylid anelu at fis Medi 2023.' UCAC

O'r rhai a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig, yr her i sicrhau cyflogaeth i fodloni'r gofynion oedd y prif achos pryder, ochr yn ochr â llai o hyblygrwydd i'r ANGau hynny sy'n dewis gweithio fel athrawon cyflenwi.

'Byddai hyn yn achosi anfantais sylweddol i'r ymgeiswyr hynny nad oeddent wedi cael cyflogaeth amser llawn na lleoliadau cyflenwi hirdymor. Byddai'r rhai sy'n dymuno gweithio fel athro cyflenwi dyddiol er mwyn cael cyflogaeth fwy hyblyg oherwydd ymrwymadau'r cartref neu ymrwymadau gofalu o dan anfantais.' ASCL Cymru

'Mae hyn yn achosi problemau a gall rwystro ANGau rhag gweithio ar eu cyfnod sefydlu. Ni fydd pob ysgol yn gallu cynnig tymor llawn.' Dienw

'Er mwyn i'r cynnig hwn weithio, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod pob ANG ar gytundeb cyflenwi byrdymor yn cael cyflogaeth mewn un ysgol am o leiaf un tymor / dau hanner tymor yn olynol (neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny i weithwyr rhan-amser) gan mai dyna'r unig ffordd y gall ANGau ar gytundeb cyflenwi byrdymor sicrhau eu bod yn gallu bodloni'r gofyniad hwn a dangos ymarfer effeithiol a chyrraedd y safonau. Os na ddarperir hyn, bydd ANGau â chontractau cyflenwi byrdymor yn ei chael hi'n anodd cael y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad i'w galluogi i ddangos y safonau proffesiynol ac felly byddant yn methu â bodloni'r gofynion sefydlu ac yn gadael y proffesiwn.' NEU Cymru

Cwestiwn 4 – canlyniad y cyfnod sefydlu

A ddylai canlyniad y cyfnod sefydlu gael ei farnu'n bennaf ar allu ANG i arddangos ymarfer effeithiol a dangos ei fod yn cyrraedd y safonau proffesiynol? (O dan y trefniant hwn, ni fyddai angen y gofyniad i athrawon cyflenwi byrdymor gwblhau a chofnodi sesiynau o gyflogaeth unigol mwyach.)

	Ymatebion cyflawn i'r arolwg		Ymatebion rhannol i'r arolwg		Ymatebion all-lein		Cyfanswm	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Cytuno	96	71.6%	26	61.9%	4	44%	126	68.1%
Anghytuno	20	14.9%	8	19.1%	2	22%	30	16.2%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	17	12.7%	3	7.1%	3	33%	23	12.4%
Nwl	1	0.8%	5	11.9%	0	0%	6	3.3%
Cyfanswm	134	100%	42	100%	9	100%	185	100%

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn, gyda 68% o blaid y cyfnod sefydlu'n canolbwyntio ar ddatblygu ymarfer ac yn lleihau'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â'r

trefniadau sefydlu. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr yn glir y byddai angen arweiniad a chymorth i ANGau ac na ddylai gofynion eraill gymryd lle'r lefel is o fiwrocratiaeth.

'Cytunaf yn gryf - yr ymarfer mwyaf effeithiol sydd bwysicaf, ac nid y gwaith gweinyddol ohono.' Dienw

'Rydym yn cytuno â'r cynnig hwn. Bydd hyn yn lleihau'r gwaith gweinyddol y mae angen i ANGau cyflenwi byrdymor ei wneud ac yn rhoi cyfle iddynt ganolbwyntio ar eu hymarfer. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ANGau cyflenwi byrdymor gael eu cynghori a'u harwain ynglŷn â sut i gasglu'r dystiolaeth sydd ei hangen i ddangos ymarfer effeithiol, cyrraedd y safonau, a chwblhau'r cyfnod sefydlu. Bydd yn rhaid iddynt hefyd gael eu cefnogi'n llawn gan Fentor Sefydlu.' NEU Cymru

'Byddai lleihad yn y baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â chofnodi sesiynau unigol yn rhywbeth i'w groesawu, ond mae angen sicrwydd na fyddai'r baich o gofnodi amser a dreuliwyd yn cael ei ddisodli gan faich cynyddol o ddangos ymarfer proffesiynol.' NASUWT

Roedd y rhai a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig yn teimlo bod baich biwrocrataidd y trefniadau presennol yn fwy na'r buddiannau sy'n deillio ohonynt.

'Na, rydym yn teimlo y dylai eu sesiynau unigol gael eu cofnodi'n unol â'r broses bresennol.' Dienw

'Mae'n anodd iawn olrhain a mesur faint o addysgu y mae ANG wedi'i wneud heb y cofnod hwn. Ni fyddai'n glir a oeddent yn addysgu mewn gwirionedd a byddai'n anodd barnu pryd i gynnal adolygiad. Mae'n bosibl y byddent yn addysgu mewn lleoliadau anghymeradwy ac ni fyddai neb yn gallu cadarnhau hyn.' Dienw

'Dylai athrawon cyflenwi gofnodi o leiaf ddau dymor cyn dileu'r gofyniad hwn.' Dienw

Cwestiwn 5 – y rheol pum mlynedd

A ddylid ailgyflwyno gofyniad i gwblhau cyfnod sefydlu o fewn cyfnod penodol o bum mlynedd ar ôl ennill statws athro cymwysedig (SAC)?

	Ymatebion cyflawn i'r arolwg		Ymatebion rhannol i'r arolwg		Ymatebion all-lein		Cyfanswm	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Cytuno	89	65.9%	23	54.8%	6	75%	118	63.8%
Anghytuno	34	25.2%	11	26.2%	1	13%	46	24.9%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	12	8.9%	3	7.1%	1	13%	16	8.6%
Nwl	0	0%	5	11.9%	0	0%	5	2.7%
Cyfanswm	135	100%	42	100%	8	100%	185	100%

Roedd bron dau o bob tri ymatebydd i'r cwestiwn hwn yn cytuno y dylid cyflwyno gofyniad i gwblhau cyfnod sefydlu o fewn pum mlynedd er mwyn sicrhau bod sgiliau a gwybodaeth ANGau yn gyfredol. Fodd bynnag, roedd rhai yn galw am rywfaint o ddisgresiwn fel na

fyddai ANGau sy'n dewis peidio â chwblhau'r cyfnod sefydlu o fewn pum mlynedd, neu nad ydynt yn gallu gwneud hynny, o dan anfantais.

'Rydym yn cefnogi'r cynnig hwn am ei fod mor bwysig bod gan athrawon wybodaeth gyfredol am y cwricwlwm ac addysgeg. Fodd bynnag, teimlwn y byddai angen trefniadau ar gyfer amgylchiadau eithriadol o hyd, megis ymrwymadau teuluol, problemau meddygol neu anabledd.' James Brown (Gwasanaethau Addysg a Phlant Cyngor Sir Ddinbych)

'Fe fyddai angen i'r Cyngor gweithlu Addysg yn monitro hyn. Byddai dull monitro blynyddol o faint o amser sydd ar ol o'r 5 mlynedd sefydlu yn ddefnyddiol iawn. Y wybodaeth i'w rannu gyda'r ANG, CP, Mentor a Gwiriwr allanol a'r cydgysylltwr sefydlu lleol.' Dienw

'Cytuno, os ydym am fod ar yr un sail â phroffesiynau eraill. Mae ymarfer yn newid mor gyflym ac os nad yw unigolyn wedi cymhwyso yn ystod y cyfnod hwn – ers cymhwyso i ddechrau – yna, rwy'n meddwl y gallai fod angen adolygu rhai agweddau.' Dienw

'Mae'r Cyngor yn cefnogi'r argymhelliad i ailgyflwyno'r terfyn o bum mlynedd i gwblhau cyfnod sefydlu, ond byddai'n gofyn am ystyriaeth ofalus i'r broses o'i roi ar waith, ei fonitro a goblygiadau peidio â chydymffurfio (hynny yw, os bydd unigolyn yn mynd dros y rheol pum mlynedd ei fod yn effeithio ar ei statws cofrestredig â Chyngor y Gweithlu Addysg).' Cyngor y Gweithlu Addysg

O blith y rhai a oedd yn anghytuno, roedd y mwyafrif yn cefnogi egwyddor y cynnig ond yn mynegi pryder am wahaniaethu posibl yn erbyn y rhai nad ydynt yn ymgymryd â chyfnod sefydlu am reswm da. .

'Er fy mod yn deall y rhesymeg dros y cynnig hwn, fel ysgol mae'r penderfyniad i ddileu'r gofyniad wedi bod yn fuddiol inni am ei fod wedi ein galluogi i gynnig swydd ANG i gynorthwyydd addysgu a gyflogwyd gennym a oedd wedi ennill Statws SAC 11 mlynedd yn gynharach.' Will Barrett (Ysgol Gynradd Peter Lea)

'Mae pum mlynedd yn gyfnod rhy fyr. Os oes rhywun wedi ennill y cymhwyster ac wedi penderfynu cael seibiant gyrfa cyn ymgymryd ag addysgu llawn amser, dylai fod modd iddo ddychwelyd pryd bynnag y bydd yn addas iddo!' Dienw

'Byddai pryderon gennym am ailgyflwyno'r gofyniad i gwblhau'r cyfnod sefydlu o fewn pum mlynedd... Pe bai'r cyfnod o bum mlynedd yn cael ei ailgyflwyno, rhaid i Lywodraeth Cymru gynnwys eithriadau yn y diwygiadau i reoliad 2015.' NEU Cymru

Cwestiwn 6 – Unedau cyfeirio disgyblion (UCDau)

A ddylai ANGau allu cyfrif amser addysgu mewn unedau cyfeirio disgyblion sy'n addysgu'r Cwricwlwm i Gymru tuag at eu cyfnod sefydlu?

	Ymatebion cyflawn i'r arolwg		Ymatebion rhannol i'r arolwg		Ymatebion all-lein		Cyfanswm	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Cytuno	121	89.6%	35	83.3%	9	100%	165	88.7%
Anghytuno	7	5.2%	0	0%	0	0%	7	3.8%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	7	5.2%	2	4.8%	0	0%	9	4.8%
Nwl	0	0%	5	11.9%	0	0%	5	2.7%
Cyfanswm	135	100%	42	100%	9	100%	186	100%

Roedd dros 88% o'r ymatebwyr o blaid y cynnig hwn wrth i UC'Dau newid i addysgu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2022. Roedd rhai ymatebwyr am sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau y gall ANGau ddatblygu amrywiaeth eang o sgiliau, gan awgrymu y dylai'r cyfnod sefydlu hefyd gynnwys rhywfaint o amser mewn lleoliadau prif ffrwd.

'Cyhyd â'u bod yn cynllunio, yn addysgu ac yn asesu yn erbyn y Cwricwlwm i Gymru, mae'n ymddangos yn awgrym synhwyrol.' Katy Holloway (Ysgol y Ddraig)

'Mae ANGau yn dysgu eithaf tipyn am heriau ymddygiadol o weithio mewn UC'Dau. Byddant hefyd yn dysgu sut i reoli ystafell dodosbarth ac am anghenion dysgu ychwanegol, rhywbeth na fyddent o bosibl yn ei wneud mewn ysgolion prif ffrwd.'
Dienw

'Rydym yn cytuno mewn egwyddor. Rydym yn awgrymu y gallai'r corff priodol sicrhau bod yr ANG yn gallu cyrraedd y safonau sefydlu yn yr UC'D a, lle y bo angen, drefnu i'r ANG dreulio amser mewn lleoliad ysgol cyflenwol.' Estyn

'Fel pwynt cyffredinol, dylai fod gan UC'Dau yr un statws fel sefydliadau sy'n dysgu â lleoliadau eraill: mae plant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysg mewn UC'Dau yn gydradd â'u cyd-ddisgyblion mewn ysgolion prif ffrwd ac maent hefyd yn haeddu bod yn rhan o sefydliad a chymuned dysgu ac addysgu, gan y byddant yn profi'n union yr un buddiannau o hynny â phlant mewn lleoliadau eraill.' – Comisiynydd Plant Cymru

'Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod ANGau sy'n gweithio'n bennaf yn y lleoliadau hyn yn cael yr un cyfleoedd a chymorth yn ystod eu cyfnod sefydlu â'r rhai mewn lleoliadau prif ffrwd.' NASUWT Cymru

Cwestiwn 7 – rôl y corff priodol

A ddylai rôl y corff priodol gael ei gwahanu oddi wrth rôl y cydgysylltydd sefydlu er mwyn sicrhau bod rhaniad clir rhwng y dyletswyddau?

	Ymatebion cyflawn i'r arolwg		Ymatebion rhannol i'r arolwg		Ymatebion all-lein		Cyfanswm	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Cytuno	75	55.6%	19	45.2%	4	44%	98	52.7%
Anghytuno	12	8.9%	0	0%	1	11%	13	7%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	48	35.6%	18	42.9%	4	44%	70	37.6%
Nwl	0	0%	5	11.9%	0	0%	5	2.7%
Cyfanswm	135	100%	42	100%	9	100%	186	100%

Roedd dros hanner yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn ac nid oedd bron 38% yn cytuno nac yn anghytuno. Mae'r trefniadau presennol yn wahanol ledled Cymru, felly nododd rhai sylwadau ategol gan ymatebwyr na fyddai hyn yn arwain at unrhyw newid, ond nododd eraill y byddent yn croesawu eglurder ynglŷn â'r rolau.

'Yn bendant. Mae'n hollbwysig o ran uniondeb y system fod gwahaniaethu clir rhwng rolau mentor sefydlu, gwiriwr allanol a chorff priodol.' Dienw

'Rydym ar ddeall bod y rolau eisoes wedi'u gwahanu yn y gogledd – Cyngor Sir Ddinbych yw ein corff priodol, GwE sy'n gyfrifol am gydgyssylltu cyfnodau sefydlu.' James Brown (Gwasanaethau Addysg a Phlant Cyngor Sir Ddinbych)

'Cytunwn y byddai gweithredu'r cynigion yn rhoi mwy o eglurder, yn lleihau'r perygl o wrthdaro buddiannau, ac yn cynyddu atebolrwydd.' UCAC

'Rydym yn cytuno mewn egwyddor â'r rolau a'r trefniadau llywodraethu arfaethedig ar gyfer y rhaglen sefydlu a grybwyllwyd yn y ddogfen ymgynghori. Fodd bynnag, mae gwahanu'r dyletswyddau hyn yn golygu y bydd angen i CSC ac EAS fynd i'r afael â'u strwythur presennol o bosibl, a allai gymryd amser ac efallai na fyddai'n barod ar gyfer y flwyddyn academaidd 2022/23 fel y crybwyllwyd yn y cynnig yng ngwestiwn 10.' NEU Cymru

'Byddai hyn yn ddefnyddiol at ddibenion atebolrwydd a sicrhau ansawdd. Mae'n hanfodol bod y trefniadau sefydlu yn mynd drwy broses sicrhau ansawdd drylwyr er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn diwallu anghenion ANGau ac yn cefnogi blaenoriaethau strategol cenedlaethol.' Estyn

'Efallai y bydd Llywodraeth Cymru am ystyried a ddylai Estyn chwarae rôl o ran sicrhau bod gwerthusiad cyson, cenedlaethol, gwrthrychol a chadarn o'r trefniadau sefydlu, ochr yn ochr â chylch o arolygiadau o addysg gychwynnol i athrawon er mwyn gwella'r system gyfan.' Estyn

Roedd y rhai a oedd yn anghytuno yn teimlo bod manteision i'r trefniadau presennol a fyddai'n cael eu colli gyda'r newid arfaethedig.

'Anghytuno - Mae'r trefniadau presennol eisoes yn ei gwneud yn bosibl i rolau gael eu gwahanu ac nid oes angen newid.' Dienw

'Drwy roi'r un person yn y rôl mae hynny'n golygu ei fod yn llwyr ddeall y broses gyfan.' Claire Bradford

Cwestiwn 8 – canlyniad y cyfnod sefydlu

A ddylai'r penderfyniad am ganlyniad y cyfnod sefydlu gael ei wneud gan y mentor sefydlu, gyda gwirwyr allanol yn cyflawni rôl sicrhau ansawdd ac yn ymdrin ag achosion sydd ar y ffin ar ran y corff priodol?

	Ymatebion cyflawn i'r arolwg		Ymatebion rhannol i'r arolwg		Ymatebion all-lein		Cyfanswm	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Cytuno	98	72.6%	32	78.1%	6	67%	136	73.5%
Anghytuno	22	16.3%	1	2.4%	1	11%	24	13%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	15	11.1%	3	7.3%	2	22%	20	10.8%
Nwl	0	0%	5	12.2%	0	0%	5	2.7%
Cyfanswm	135	100%	41	100%	9	100%	185	100%

Roedd dros 73% yn cytuno mai cyfrifoldeb y mentor sefydlu fyddai arsylwi'r ANG ac asesu a ydynt yn bodloni'r safonau, gyda chymorth a chymedroli gan y gwirwyr allanol a'r cyrff priodol. Nododd nifer o'r ymatebwyr mai'r mentor sefydlu sydd yn y sefyllfa orau i farnu. Ymhlith y rhai a oedd yn anghytuno, mynegodd nifer ohonynt bryderon ynglŷn â sicrhau gwrthrychedd a chymorth cyson.

'Y mentor sefydlu sy'n adnabod yr athro orau ac sy'n gallu dirnad a yw'r athro yn gwneud cynnydd ac yn dangos ei sgiliau a'i botensial nid yn unig i fod yn athro ond i fod yn athro gwyb.' Dienw

'Bydd hyn yn sicrhau mwy o gysondeb ledled y wlad.' Dienw

'Cytuno'n llwyr. Mae hyn yn gwneud synnwyr gan mai nhw sy'n adnabod yr ANGau orau.

Byddem yn cefnogi rôl i wiriwr allanol sicrhau ansawdd ac ymdrin ag achosion ar y ffin ar ran y corff priodol.' Dienw

'Byddai'r trefniadau sicrhau ansawdd cryn dipyn yn fwy cadarn o weithredu'r cynigion.' UCAC

'Nid wyf yn siŵr y gall y mentor sefydlu fod yn ddigon gwrthrychol i ANGau yn ei ysgol - Rwy'n credu bod angen penderfyniad ar y cyd â'r gwiriwr allanol.' Dienw

'Credaf bod y drefn bresennol yn drwyadl. O brofiad, mae y mentor sefydlu yn dymuno trafod y penderfyniad gyda'r gwirwyr allanol gan fod gan y gwirwyr allanol brofiadau helaeth o weithio â nifer o ysgolion ac ANG.' Dienw

'Rydym yn teimlo bod y trefniadau presennol sydd ar waith yn effeithiol a dyma'r trefniadau mwyaf priodol o ran anghenion cymorth yr ANG.' James Brown (Gwasanaethau Addysg a Phlant Cyngor Sir Ddinbych)

Cwestiwn 9 – ariannu mentoriaid sefydlu

A ddylai rôl y mentor sefydlu gael ei hariannu a'i chyflawni gan fentoriaid hyfforddedig sydd (lle y bo hynny'n bosibl) yn aros gyda'r ANG drwy gydol ei gyfnod sefydlu?

	Ymatebion cyflawn i'r arolwg		Ymatebion rhannol i'r arolwg		Ymatebion all-lein		Cyfanswm	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Cytuno	111	82.8%	28	68.4%	7	78%	146	79.3%
Anghytuno	4	3%	4	9.7%	0	0%	8	4.3%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	19	14.2%	4	9.7%	2	22%	25	13.6%
Nwl	0	0%	5	12.2%	0	0%	5	2.8%
Cyfanswm	134	100%	41	100%	9	100%	184	100%

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod angen ariannu mentoriaid sefydlu, gyda dim ond 4% yn anghytuno. Roedd sicrhau bod ANGau yn cael eu cefnogi'n llawn gan fentoriaid sy'n cael amser i ymgymryd â'r rôl yn flaenoriaeth amlwg i ymatebwyr.

'Cytuno'n gryf. Drwy hyfforddiant o ansawdd uchel, cymorth ac, yn bwysicaf oll, amser i fentoriaid sefydlu, bydd modd rhoi gwell arweiniad i'r ANG.' Dienw

'Cefnogwn y cynnig hwn yn gryf iawn. Mae angen i fentor sefydlu fod yn rôl gydnabyddedig, arbenigol, sefydlog.' UCAC

'Mae hyn yn galluogi'r ANG i gael cymorth ac arbenigedd o safon. Bydd aros gyda'r un mentor yn rhoi cysondeb a bydd yn gyfle i ddatblygu cydberthnasau gwaith da.' Dienw

'Lle bo'n bosibl, dylai'r IM aros gydag ANG o fewn yr ysgol lle bynnag y bo'n ymarferol, ond ni fyddai'n ymarferol i IM mewn un ysgol fod yn cefnogi ANG mewn ysgol arall sydd wedi symud yn ystod y broses sefydlu.' Dienw

'Mae'r cyfnod sefydlu yn gweithio'n dda pan fydd y mentor sefydlu yn ymrwymo i'r rôl ac yn cael yr amser i fentora'r ANG yn effeithiol a lle mae ysgolion yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd a phrofiadau.' Dienw

'Mae NASUWT yn cefnogi'r cynnig i ddarparu mentoriaid hyfforddedig, wedi'u hariannu. Mae'n rhaid i arian o'r fath fod yn ddibynnol ar gyfnodau ar gyfer dyletswyddau mentora y cytunwyd arnynt ac sy'n cael eu hamserlennu. Os na chaiff y rhain eu nodi'n benodol, mae risg y caiff yr arian ei ddefnyddio i roi hwb i gyllidebau ysgol annigonol heb unrhyw fudd sicr o ran mentora ANGau.' NASUWT Cymru

Cyfeiriodd y rhan fwyaf o'r sylwadau a wnaed gan ymatebwyr a oedd yn anghytuno at yr heriau sy'n gysylltiedig â sicrhau bod un mentor sefydlu yn aros gyda'r ANG drwy gydol ei gyfnod sefydlu.

'Rydym yn teimlo y gallai hyn fod yn heriol os nad yw'r ANGau yn cwblhau eu holl sesiynau yn yr un ysgol.' Dienw

'Ni fyddai hyn yn bosibl, yn enwedig pan fydd ANGau yn symud rhwng ysgolion ac ALLau. Byddai'r mentoriaid sefydlu yn dibynnu ar yr ANG a staff yr ysgol i roi adborth iddynt os nad oedd yr ANG yn eu hysgol. Gallai olygu mwy o waith i bawb dan sylw.' Dienw

Cwestiwn 10 – amseriad gweithredu

Ac eithrio'r gofyniad arfaethedig i bob ANG ymgymryd â chyfnod o gyflogaeth barhaus mewn un ysgol o un tymor neu ddau hanner tymor yn olynol o leiaf (neu gyfnod cyfatebol i weithwyr rhan amser), a ydych o'r farn y dylai'r newidiadau arfaethedig i'r trefniadau sefydlu yr ymgynghorwyd arnynt gael eu gweithredu mewn paratoad ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd 2022/23? Ar gyfer unrhyw gynig yr ydych yn ei ystyried **na** ddylid ei weithredu erbyn dechrau'r flwyddyn academaidd 2020/23, nodwch y rhesymau pam.

	Ymatebion cyflawn i'r arolwg		Ymatebion rhannol i'r arolwg		Ymatebion all-lein		Cyfanswm	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Cytuno	91	67.9%	22	55%	2	25%	115	63.2%
Anghytuno	23	17.2%	2	5%	3	38%	28	15.4%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	20	14.9%	11	27.5%	3	38%	34	18.7%
Nwl	0	0%	5	12.5%	0	0%	5	2.7%
Cyfanswm	134	100%	40	100%	8	100%	182	100%

Roedd 63% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai'r newidiadau gael eu rhoi ar waith yn barod ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd 2022/23. Fodd bynnag, nododd nifer o'r ymatebwyr hyn fod angen gochel rhag rhoi pwysau ar y system a bod angen sicrhau bod canllawiau clir ar waith. Awgrymodd eraill y gallai rhai o'r cynigion gael eu rhoi ar waith erbyn mis Medi 2022 gydag eraill yn dilyn yn 2023.

'Gorau po gyntaf y gall y newidiadau arfaethedig hyn gael eu rhoi ar waith o ran yr ANGau, ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion .' Luke Dempsey

'Dylai'r cynigion ynglŷn ag unedau cyfeirio disgyblion, ariannu mentoriaid sefydlu a'r rheol pum mlynedd gael eu cyflwyno cyn gynted â phosibl. Bydd angen amser i fwydo'r cysyniad o gontract tymor/dau hanner tymor i AGA gyda'r rhybudd NA fydd hyn yn wir am bob ANG ac y bydd y mwyafrif yn dal i gymryd blwyddyn. Mae angen gwneud y gwaith paratoi hwn er mwyn sicrhau nad yw'r disgwyliad yn rhan o feddylfryd yr ANGau newydd, mae angen iddynt ddeall bod y broses, myfyrio a dangos sgiliau mewnblanedig yn bwysig.' Dienw

'Dim ond y cynigion a amlinellir yng Nghwestiwn 5 a 6 sy'n rhai hawdd eu rhoi ar waith ac a ddylai gael eu newid ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd 2022/23.' Rolfe Clarke (Consortium Canol De Cymru)

'Ar y cyfan, byddem am weld y newidiadau'n cael eu cyflwyno cyn gynted ag sy'n rhesymol ac yn ymarferol bosib, gan y byddent yn gwella'r profiad yn sylweddol i athrawon newydd. Felly byddai dechrau'r flwyddyn academaidd 2022/23 yn gymeradwy. Ar gyfer y sawl sydd dan hyfforddiant yn y flwyddyn 2021/22, dim ond hwyluso'r trefniadau fyddai'r cynigion yn ei wneud, felly nid ydym yn rhagweld problem gyda'u cyflwyno. Ni fyddent yn ychwanegu unrhyw ofynion annisgwyl o'r newydd.' UCAC

'Mae'n ymddangos y byddai hyn yn amserlen uchelgeisiol, o ystyried bod angen i'r rhaglen sefydlu gael ei chynllunio'n llawn, bod angen i fentoriaid gael eu hyfforddi a bod angen cydweithio rhwng awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a phartneriaethau AGA. Fodd bynnag, mae angen dybryd i sicrhau bod y cyfnod sefydlu yn gefnogol ac yn gyson.' Estyn

Roedd y sylwadau a wnaed gan ymatebwyr a oedd yn anghytuno ag amseriad y cynigion yn ategu'r rhai uchod a gododd bryderon am sicrhau cyfnod paratoi realistig ar gyfer rhoi newidiadau ar waith.

'Rwy'n teimlo y byddai'r newidiadau yn cael mwy o effaith pe baent yn cael eu gadael tan 23/24.' Katy Holloway (Ysgol y Ddraig)

'Anodd iawn gweithredu unrhyw newidiadau erbyn mis Medi 2022. Angen sicrhau hyfforddiant ac arweiniad priodol.' Dienw

'Mae hyn yn rhy fuan. Mae'n bosibl bod pobl sydd eisoes yn astudio ac sydd wedi gwneud cynlluniau ar sail y trefniadau presennol.' Dienw

Cwestiwn 11 – dysgu proffesiynol

Amlinellwch unrhyw gymorth penodol neu gyfleoedd dysgu proffesiynol y dylid eu cynnig ar gam cynnar gyrfa.

O blith cyfanswm o 135, atebodd 71 o ymatebwyr y cwestiwn hwn ac ni chafwyd unrhyw ymateb o gwbl gan 64 o ymatebwyr.

Roedd sawl ymatebydd yn teimlo bod angen hyfforddiant penodol yn ystod y pecyn cymorth gyrfa gynnar, a nododd eraill bwysigrwydd hyfforddiant hyblyg a phwrpasol yn seiliedig ar anghenion yr unigolyn. Nododd llawer o'r ymatebwyr fod angen mwy o gyfleoedd i gysgodi ac arsylwi ar eraill, yn ogystal â chyfleoedd i gydweithio ag ymarferwyr mwy profiadol, naill ai yn eu lleoliad eu hunain, neu mewn ysgolion eraill.

Mae'r enghreifftiau o gyfleoedd dysgu y cynigiwyd y dylent fod ar gael ar gam cynnar gyrfa yn cynnwys:

Cymorth ac arweiniad penodol

'Rheoli ymddygiad

Ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a llesiant/iechyd emosiynol

Hyfforddiant ar y Cwricwlwm newydd i Gymru

Hyfforddiant ar addysgeg

Addysgeg a lywir gan ymchwil.' Dienw

'Rwy'n teimlo y gellid rhoi hyfforddiant mwy ymarferol. Er enghraifft, dylai ymgyrch Achub Bywyd Mis Medi Urdd Sain Ioan gael ei chodi gyda'r ANGau gan y gallai hyn arwain at addysgwyr sydd wedi'u paratoi'n well i gadw plant/pobl ifanc yn ddiogel.'

Dienw

'Defnyddio Cynorthwyr Addysgu yn effeithiol.
Ymdrin â rhieni a gofalwyr.'

Dienw

'Er y bydd anghenion hyfforddiant ANGau yn cael eu nodi yn eu proffil dechrau gyrfa a'u trafod â'u mentor sefydlu, mae cyfleoedd dysgu proffesiynol penodol a ddylai fod ar gael ar gam cynnar gyrfa, a dylent gynnwys:

- Gwybodaeth ac arweiniad ynglŷn â'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg newydd.
- Cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg – yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg Gymraeg yng Nghymru a cheisio denu mwy o athrawon sy'n gallu addysgu yn Gymraeg.
- Addysg wrth-hiliol– terminoleg, ymdrin ag achosion o hiliaeth ac ati.
- Hyfforddiant Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i sicrhau bod athrawon yn barod i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol, fel y'i hamlinellwyd yn adroddiad diweddar Estyn.
- Hyfforddiant i ymgorffori iechyd meddwl a lles ym mhob rhan o'r cwricwlwm, yn unol â'r dull ysgol gyfan.

Mae'r cymorth a'r arweiniad penodol a ddylai fod ar gael ar gam cynnar gyrfa yn cynnwys:

- Cefnogi eu Hiechyd Meddwl a'u Lles eu hunain yn ystod y pecyn cymorth gyrfa gynnar.' NEU Cymru

Sesiynau gan Gyngor y Gweithlu Addysg a'r PDP

'Efallai y gallai Cyngor y Gweithlu Addysg gynnal sesiynau cynharach ym mis Mehefin neu fis Gorffennaf i esbonio i hyfforddeion sy'n dod i Gymru sut mae Pebblepad [y PDP] yn gweithio ac ati (mae hyn yn digwydd mewn rhai prifysgolion yn Lloegr i fyfyrwyr o Gymru ond nid pob un?)' Michael Jones

'Mae'r defnydd o'r PDP wedi'i ymgorffori yn AGA yng Nghymru, y cyfnod sefydlu a'r radd Meistr mewn Addysg. Byddai ei ymgorffori fel rhan o'r ESCP yn ei gyfanrwydd yn ymddangos yn gam naturiol.' Cyngor y Gweithlu Addysg

Pwrpasol a hyblyg

'Datblygu cwmplen i roi cymorth cam cynnar gyrfa er mwyn iddo fod yn bwrpasol i'r staff ac anelu at ehangu ar yr hyn a wneir yn ystod y flwyddyn sefydlu.' Dienw

'Diwrnodau hyfforddiant mwy hyblyg er mwyn sicrhau y gall pob ANG gael yr hyfforddiant. Gallai hyn fod ar ffurf modiwlau/cyrsiau ar-lein y gallant eu dilyn yn eu hamser eu hunain.' Dienw

Cyfleoedd i gysgodi/arsylwi ar eraill a chydweithio

'Darparu cyfleoedd strwythuredig i fynd i arsylwi ar addysgu o safon mewn gwahanol ysgolion, gan gynnwys ysgolion sy'n addysgu cyfnodau ac oedrannau gwahanol i'r rhai mae'r ANG yn eu haddysgu.' Dienw

'Cyfleoedd i weithio/cysgodi mewn ysgolion eraill, yn enwedig mewn ysgolion gwledig bach gyda staff profiadol cyfyngedig.' Dienw

'Mwy o gyfleoedd i arsylwi ar athrawon eraill, rhywbeth y cyfyngwyd arno oherwydd y pandemig.' Dienw

'Gweithio gyda grwpiau anghenion dysgu ychwanegol neu o leiaf arsylwi arnynt wrth iddynt gael eu haddysgu er mwyn gweld strategaethau rheoli ymddygiad ynghyd â strategaethau ystafell ddosbarth.' Dienw

'Cyfleoedd cryfach i gydweithio rhwng ANGau ac athrawon sydd ar gam cynnar yn eu gyrfa.' Dienw

'Dylai'r cyfnod sefydlu hefyd roi cyfleoedd i addysgu mewn tîm a chysgodi. Dylai pob ANG gael cyfleoedd i addysgu ochr yn ochr ag ymarferwyr effeithiol. Dylent gael cymorth i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau yn yr ysgol drwy gysgodi cydweithwyr profiadol, er enghraifft gweithio ochr yn ochr â thiwtor dosbarth, neu gyfarfod â rhieni yng nghwmni aelod arall o'r staff.' Estyn

Mae'r cynnig y dylai'r rhaglen sefydlu gynnwys 13 diwrnod o ddysgu proffesiynol a ddarperir gan y consortia/ALI a'r ysgol, a'u nodi'n glir mewn canllawiau, i'w groesawu.' NEU Cymru

Blynyddoedd 2-5 o'r cam cynnar gyrfa

'Gallai Blwyddyn 2 o gam cynnar gyrfa gynnwys datblygu sgiliau'r ANG ymhellach a dechrau eu hymgorffori mewn ymarfer beunyddiol.

Gallai Blwyddyn 3 ganolbwyntio ar ymchwil ar raddfa fach a chynnydd disgyblion.

Gallai Blynyddoedd 4 a 5 edrych ar fentrau ysgol gyfan sy'n gysylltiedig ag addysgu a dysgu a blaenoriaethau'r ysgol ac anelu at fod yn arweinwyr canol.' Dienw

ANGau cyflenwi

'Dylai ANGau cyflenwi gael eu had-dalu am ddod i sesiynau dysgu proffesiynol y cytunwyd arnynt a gyflwynir fel rhan o'r rhaglen sefydlu. Byddai rhoi'r model clwstwr o athrawon cyflenwi ar waith ledled Cymru yn helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn.' NASUWT Cymru

Hyfforddiant i fentoriaid sefydlu

'O ran mentoriaid Sefydlu - mae angen cwrs carlam ar Fentoriaid Sefydlu sydd wedi bod wrthi ers dros 5 mlynedd. Mae'r Hyfforddiant Cenedlaethol yn ailadroddus o flwyddyn i flwyddyn i Fentoriaid sy'n hynod brofiadol.' Dienw

Cwestiwn 12 – effaith ar y Gymraeg

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r newidiadau arfaethedig i'r trefniadau sefydlu yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg
- peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

O blith y 135 o ymatebion cyflawn, atebodd 62 y cwestiwn hwn, gyda'r mwyafrif yn nodi na ddylai fod unrhyw effaith ar y Gymraeg ac y gellid cymryd camau yn ystod y cyfnod sefydlu i roi cyfleoedd i ANGau ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ac i gael eu cefnogi gan fentoriaid sy'n siarad Cymraeg.

'Dwi ddim yn credu y byddai'r newidiadau yn effeithio ar y Gymraeg.' Dienw

'A fyddai yn bosib neilltuo amser ychwanegol yn ystod y cyfnod ymsefydlu i ANG ddysgu neu loywi iaith? Cyfle i ymgysylltu gyda'r rhaglen newydd sydd yn cynnig gwersi Cymraeg i athrawon.' Dienw

'Dylai Cymry gael mentoriaid sy'n rhugl yn y Gymraeg a dylent gael eu hannog i gyflawni / rhoi tystiolaeth o'u cyfnod sefydlu trwy gyfrwng y Gymraeg' Dienw

'Dylid rhoi dosbarthiadau i ANGau nad ydynt yn hyderus o ran addysgu'r Gymraeg, a byddai sesiynau arsylwi ar wersi yn ddefnyddiol er mwyn gwyllo athro sy'n addysgu'r Gymraeg yn hyderus.' Dienw

'Trwy i wirwyr allanol arsylwi gwersi maent yn gallu sicrhau bod defnydd o Gymraeg Pob Dydd (ysgolion cyfrwng Saesneg) yn cael defnydd rheolaidd a hefyd cywirdeb iaith a modelu iaith goeth (ysgolion cyfrwng Cymraeg). Os y byddai'r gwaith mentora i gyd yn digwydd yn fewnol, nid oes sicrhad o ansawdd iaith a defnydd o'r iaith Gymraeg bob amser.' Dienw

Cwestiwn 13 – newid cynigion i gefnogi'r Gymraeg

Eglurwch hefyd sut y gellid newid y cynigion, yn eich barn chi, er mwyn lleihau'r effaith negyddol neu gynyddu'r effaith gadarnhaol ar y canlynol:

- cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg
- peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cafwyd 50 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Mae'r awgrymiadau'n cynnwys:

'Dylid caniatáu i athrawon ddefnyddio tymor fel cyfnod sabothol i wella eu Cymraeg i safon rugl (os oes modd).' Dienw

'Dylai fod gofyniad ar ddiwedd y cyfnod sefydlu i ANGau gyrraedd lefel benodol o Gymraeg. Nid yw'r safonau sefydlu yn mynd yn ddigon pell drwy ofyn am ymrwymiad personol yn unig i ddysgu'r Gymraeg – efallai y byddent yn dangos hyn mewn profiad dysgu proffesiynol ond, yn aml, nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn eu defnydd o'r iaith yn yr ystafell ddosbarth. 'Efallai y gallai fod gofyniad hefyd i addysgu rhyw fath o sesiwn Gymraeg ddyddiol / wythnosol.' Dienw

'Gallai sawl un o'r Diwrnodau Hyfforddiant ymwneud â'r Gymraeg.' Dienw

'Mwy o gymorth ac arweiniad i'r rhai nad ydynt yn hanu o Gymru, sydd wedi symud i Gymru ac nad oes ganddynt wybodaeth/sgiliau defnyddio'r Gymraeg wrth addysgu.'
Dienw

'Dylid rhoi gwersi Cymraeg wythnosol wedi'u hariannu i fyfyrwyr TAR ac ANGau. Roedd gennym athro TAR brwdfrydig iawn y bu'n rhaid iddo addysgu dechreuwyr a siaradwyr Cymraeg rhugl. Roedd ei frwdfrydedd yn ysbrydoledig, ond dim ond dau ddosbarth oedd ar gael (i ymdrin ag ystod gallu mor fawr) a llai na thymor o wersi. Bydd myfyrwyr TAR/ANGau sy'n hyderus ac yn frwd dros ddefnyddio'r Gymraeg yn annog ysgolion a'r athrawon presennol i wneud yr un fath. Rwy'n credu ei bod yn arbennig o bwysig canolbwyntio ar helpu i ddatblygu'r Gymraeg ymhlith myfyrwyr TAR/ANGau.' Dienw

'Rwy'n teimlo mai'r unig ffordd o godi proffil y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yw rhoi statws cryfach iddi yn y Safonau Addysgu. O ystyried proffil uchel y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ymhlith ALLau yng Nghymru, mae'n rhyfedd mai dim ond un o'r 32 o feysydd sy'n cyfrannu at y 5 Safon Addysgu sy'n ymwneud â datblygu ein hiaith genedlaethol!' Dienw

'Mae angen hyfforddiant penodol, cyson i ANGau ar ddefnyddio'r Gymraeg yn achlysurol.' Hayley Blackwell (Ysgol Eirias)

'Mae fframwaith y Gymraeg yn rhoi cyfle da i ddatblygu i ANGau ac mae wedi'i gynnwys ar y proffil sefydlu.' Dienw

Cwestiwn 14 – sylwadau eraill

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma:

Ymatebodd 40 o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd yr awgrymiadau yn cynnwys y canlynol:

'Mae nifer y profiadau dysgu proffesiynol yn feichus iawn i ANG prysur. Mae'n ymddangos hefyd fod disgwyliadau gwahanol ymhlith gwirwyr allanol o ran beth yw profiad dysgu proffesiynol. Rwyf wedi gweld un gwiriwr allanol yn derbyn profiad dysgu proffesiynol 100 gair di-raen ac un arall yn mynnu cael adroddiadau 2000 gair sy'n cynnwys o leiaf bum darn o dystiolaeth ategol. Byddai profiadau dysgu proffesiynol enghreifftiol neu rai a dderbynnir yn genedlaethol yn ddefnyddiol iawn yn fy rôl i.' Dienw

'Rwy'n teimlo bod angen gwneud rhagor i bontio rhwng AGA ac ANG. Dylai fod modd i athrawon gael eu cefnogi drwy'r naill a'r llall gan yr un mentor/gwiriwr allanol lle y bo'n briodol.' Laura Salkeld (Ysgol Gynradd Kymin View)

'Byddai cymorth i ANGau y tu allan i'r ysgol yn beth da. Er mwyn cael cysylltiad â rhwydwaith os bydd unrhyw anawsterau'n codi yn eich ysgol. Byddai'n fuddiol aros yn rhan o rwydwaith y tu allan i'ch ysgol.' Dienw

'Mae gormod o amser yn cael ei dreulio yn dangos eich bod yn gallu cynllunio gwrs, ond nid oes digon o amser yn cael ei dreulio yn rhoi cyfle i'r athro ddangos ei sgiliau. Mae angen ffordd arall o ddangos tystiolaeth o brofiadau dysgu o bosibl heblaw am

ysgrifennu profiadau dysgu proffesiynol am eu bod yn mynd yn undonog. VIVA o bosibl ar ddiwedd y cyfnod sefydlu sy'n galluogi'r ANG i ddangos pethau penodol o'i brofiadau'. Dienw

'Hyrwyddo rôl y mentor sefydlu yn yr ysgol er mwyn iddi gael ei hystyried yn swydd arwain, gyda sgiliau penodol y mae angen eu datblygu a'u cefnogi drwy hyfforddiant. Gall hyfforddiant fod ar lefel genedlaethol ond ar lefel ranbarthol hefyd. Os bydd y newidiadau'n cael eu cyflwyno, bydd rôl mentoriaid sefydlu yn cynyddu ac felly mae angen i hyn gael ei adlewyrchu yn y cymorth a roddir iddynt uwchsgilio ac iddynt barhau â'u datblygiad proffesiynol.' Dienw

'Dylid rhoi mwy o rôl i'r gwiriwr allanol ym mhob rhanbarth. Ar hyn o bryd, rwyf yn rhan o rwydwaith o wirwyr allanol arweiniol yng Nghonsortiwwm Canol De Cymru. Rwyf ar secondiad i'r rôl, yn gweithio pedwar diwrnod yr wythnos i gefnogi ANGau. Rwy'n cefnogi tau 50 o ANGau y flwyddyn. Mae gwiriwr allanol arweiniol arall ar secondiad i'r rôl am bedwar diwrnod yr wythnos ac mae gwirwyr allanol arweiniol eraill sydd wedi ymrwymo i gefnogi nifer o ANGau. Rhyngom, rydym wedi llwyddo i gefnogi ymhell dros 100 o ANGau ar gontractau hirdymor ac mewn swyddi cyflenwi byrdymor. Mae hyn yn gweithio'n dda iawn am ei fod yn sicrhau cysondeb gyda phwyslais ar gymorth o ansawdd uchel yn y rhwydwaith o ANGau.' Rolfe Clarke (Consortiwwm Canol De Cymru)

'Un agwedd o'r trefniadau presennol ar gyfer Sefydlu sy'n denu cryn anfodlonrwydd gan y sawl sy'n ymwneud â'r broses yw natur y dystiolaeth y mae'n rhaid ei gasglu a'i nodi yn y Pasbort Dysgu Proffesiynol. Mae'n glir bod anghysondeb difrifol o ranbarth i ranbarth, neu o awdurdod i awdurdod o ran natur a lefel y gofynion, ac mewn rhai achosion bod y gofynion yn gyfan gwbl llethol ar ben gofynion sylfaenol bod yn ANG a gweithio fel athro am y tro cyntaf. Hoffem weld y trefniadau newydd yn mynd i'r afael â hynny fel mater o flaenoriaeth, er ein bod yn cydnabod nad newidiadau i'r rheoliadau fyddai dan sylw.' UCAC

'Dylai cam cynnar gyrfa gael ei gefnogi drwy gyllid ac amser di-gyswllt statudol er mwyn rhoi cyfle i athrawon ar gam cynnar yn eu gyrfa fanteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol o safon uchel. Dylai'r athrawon ar gam cynnar yn eu gyrfa, y mentoriaid sefydlu a'r penaethiaid gael eu hysbysu'n benodol am sut i ddefnyddio'r cyllid a'r amser di-gyswllt er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf buddiol. Dylai cyfleoedd dysgu proffesiynol fod yn berthnasol i feysydd y nodwyd y dylai ymarferwyr eu datblygu, dylent fod o safon uchel, dylid eu cynllunio'n ofalus, eu monitro a dylai eu heffaith gael ei hadolygu a'i gwerthuso. Hyfforddiant penodol ar symud o'r cyfnod sefydlu i ymarfer proffesiynol estynedig mewn perthynas â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth.' Awdurdod Lleol Abertawe

'Byddai'n fuddiol dileu nifer y sesiynau'n gyfan gwbl os yw parodrwydd ANGau yn mynd i gael ei asesu yn erbyn y safonau.' Dienw

'Credwn yn gryf y dylai pob athro newydd gymhwyso gael hyfforddiant ar bwysigrwydd mawr dysgu yn yr awyr agored a'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur, ar gyfer pob cyfnod a phob pwnc.' Cyfoeth Naturiol Cymru

'Dylai'r rhaglen sefydlu wneud defnydd effeithiol o'r ysgolion arweiniol ar gyfer AGA. Rydym yn datblygu carfan gadarn o 'ysgolion hyfforddi' yng Nghymru ac mae angen

gwneud y defnydd gorau o'r adnodd hwn. Mae potensial i'r ysgolion arweiniol roi cyd-destun amgen lle y gall ANGau arsylwi ar ymarfer da a gweithio ochr yn ochr ag ymarferwyr effeithiol.' Estyn

'Mae llawer o'r ysgolion hyn hefyd yn dangos yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn sefydliad sy'n dysgu, sy'n hanfodol er mwyn i ANGau ddeall yr hyn y mae'n ei olygu i ddatblygu eu sgiliau ar gyfer dysgu proffesiynol ar hyd eu gyrfa.' Estyn

'Rwy'n argymhell yn gryf y dylai blaenoriaethau a bennir yn genedlaethol ar gyfer y cyfnod hwn gynnwys nod penodol o sicrhau bod ymarferwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o hawliau dynol plant fel y'u nodwyd yng Nghonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)'. 'Mae'n bwysig sicrhau bod hyn yn rhan o ddatblygiad cam cynnar gyrfa oherwydd dylai'r ddealltwriaeth hollbwysig hon fod yn sail i ymarfer, yn wir mae hawliau dysgwyr wedi'u cynnwys fel rhan o'r gwerthoedd a'r ymagweddau yn y safonau proffesiynol i athrawon a byddwn yn argymhell bod datblygiad cam cynnar gyrfa yn cefnogi gweithwyr proffesiynol i ddeall yr hawliau hyn a'u hymgorffori yn eu hymarfer.' Y Comisiynydd Plant

'Rydym yn credu ei bod yn hollbwysig bod hyfforddiant ar gael i bob addysgwr proffesiynol er mwyn sicrhau ei fod yn gallu dysgu Cymraeg, ar lefel sy'n briodol i'w anghenion proffesiynol. Rydym yn credu, er mwyn i Lywodraeth Cymru gyflawni ei nodau o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, fod yn rhaid iddi ddarparu hyfforddiant a chymorth i'r gweithlu addysg presennol.' NEU Cymru

'Er mwyn sicrhau bod pob ANG yn cael yr un mynediad i'r hyfforddiant cenedlaethol, a ddarperir yn rhanbarthol neu ar sail awdurdod lleol, ni waeth pryd mae'r ANG yn dechrau ei gyfnod sefydlu yn ystod y flwyddyn, byddai'r Cyngor yn gofyn i Lywodraeth Cymru ystyried y negeseuon a roddir a'r ffordd y cyfathrebir am yr hyfforddiant a sut mae ANGau yn cael gafael arno. Bydd hyn yn arbennig o bwysig i ANGau cyflenwi sydd yn aml yn cael anhawster i gael gafael ar y cymorth angenrheidiol ac sy'n gorfod dewis rhwng mynd i hyfforddiant neu gael diwrnod o gyflogaeth â thâl, a gallai hynny gael ei gyflawni drwy fwy o ymgysylltu ag asiantaethau cyflenwi (a'u rheoleiddio yn y pen draw).' Cyngor y Gweithlu Addysg

'Mae'r Cyngor yn nodi, er bod Lloegr wedi symud i raglen sefydlu dwy flynedd yn ddiweddar ac er gwaethaf y goblygiadau i unigolion sydd hanner ffordd drwy eu cyfnod sefydlu ac yn symud i Gymru, nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwygio'r trefniadau cilyddol. Nid yw'r Cyngor yn glir ynglŷn â'r goblygiadau i ANGau os symudir o Loegr i Gymru ac fel arall (yn benodol y rhai sydd wedi cwblhau rhan o'r rhaglen sefydlu yn y naill awdurdodaeth neu'r llall ar adeg symud) a byddai'n gofyn i Lywodraeth Cymru roi eglurder yn hyn o beth.' Cyngor y Gweithlu Addysg

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn, ac yn enwedig y rhai sydd wedi cyflwyno ymateb. Fel dogfen gryno, nid yw'r holl faterion a godwyd yn yr ymatebion wedi cael eu hadlewyrchu'n llawn, ond mae pob ymateb wedi cael ei ystyried yn ofalus.

Ein nod wrth ddiwygio'r trefniadau sefydlu yw gwella'r cymorth a roddir i bob ANG, ni waeth pa lwybr y mae'n ei ddilyn. Rydym yn anelu at roi mwy o hyblygrwydd o ran y trefniadau

sefydlu ond hefyd gynnal safon uchel ar yr un pryd er mwyn rhoi cyfnod sefydlu i ANGau sy'n bodloni eu gofynion ac sy'n rhoi sylfaen gadarn ar gyfer eu gyrfa fel athrawon.

Mae sylwadau ymatebwyr ar y cynigion yn rhoi cipolwg ar eu heffaith bosibl ar y proffesiwn ac yn cynnwys awgrymiadau gwerthfawr ar gyfer gwneud y mwyaf o'u heffeithiolrwydd. Yn seiliedig ar yr ymatebion a ddaeth i law, caiff y cynigion canlynol eu mabwysiadu o fis Medi 2022 ymlaen, fel a nodir isod.

Gwahanu rolau'r corff priodol a'r cydgysylltydd sefydlu

Cafwyd rhywfaint o gytundeb, lle mae'r rolau hyn wedi'u cyfuno ar hyn o bryd, y gall gwahanu'r rolau helpu o ran uniondeb a gwrthrychedd y trefniadau sefydlu. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid yn ystod y flwyddyn academaidd 22/23 i gefnogi'r broses o wahanu rolau, a byddwn yn sensitif i'r goblygiadau posibl i rai rhanbarthau lle y bydd angen iddynt newid eu gweithdrefnau gweithredu. Caiff canllawiau sefydlu diwygiedig eu cyhoeddi ym mis Medi.

Ariannu mentoriaid

Derbynnir yn gyffredinol fod cymorth a dysgu proffesiynol o safon uchel yn allweddol i ddatblygu proffesiwn addysgu hyfedr. Caiff cyllid ei ddarparu ar gyfer mentoriaid i gefnogi pob ANG, gan gynnwys y rheiny sy'n ymgymryd â sefydlu ar y llwybr cyflenwi, er mwyn cydnabod pwysigrwydd rôl y mentor wrth ddarparu'r cymorth a'r dysgu proffesiynol i ANGau. Rydym yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â mentora ANGau ar y llwybr cyflenwi a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau na fydd ANGau yn y grŵp hwn o dan anfantais. Mae trefniadau ar waith gyda Chyngor y Gweithlu Addysg i brosesu'r cyllid ar gyfer mentoriaid i gefnogi dysgu proffesiynol a mentora o ddechrau'r flwyddyn academaidd ym mis Medi.

Cymorth a dysgu proffesiynol

Mae'r awgrymiadau yn yr ymatebion i'r cwestiwn ar yr hyn y dylid ei gynnwys o ran dysgu proffesiynol a chymorth i athrawon sydd ar gam cynnar yn eu gyrfa yn eang eu cwmpas a chânt eu hystyried gan Lywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol wrth i'r rhaglen dysgu proffesiynol i ANGau a'r rhai sydd ar gam cynnar yn eu gyrfa gael ei mireinio a'i datblygu ymhellach.

Caiff canllawiau eu cyhoeddi i sicrhau bod ANGau yn glir ynglŷn â'r dysgu proffesiynol sydd ar gael iddynt, ni waeth ble maent yn byw na pha lwybr y mae eu cyfnod sefydlu wedi'i ddilyn.

Sefydlu a'r Gymraeg

Cafwyd nifer o awgrymiadau defnyddiol iawn yn yr ymatebion i sicrhau bod y trefniadau sefydlu diwygiedig yn helpu ANGau i ddatblygu eu gwybodaeth am y Gymraeg a diwylliant Cymru yn unol â'r safonau proffesiynol. Byddwn yn gweithredu ar y rhain fel rhan o'r broses o fireinio'r rhaglen dysgu proffesiynol.

Cyfnod o gyflogaeth barhaus

Ni fydd y cynnig y dylai'r cyfnod sefydlu gynnwys cyfnod o gyflogaeth barhaus am dymor yn cael ei fabwysiadu. Codwyd cwestiynau dilys yn yr ymatebion ynghylch sut y gellid

gweithredu'r polisi hwn mewn ffordd na fyddai'n gwahaniaethu yn erbyn ANGau sy'n dewis y llwybr cyflenwi a/neu sy'n cael eu cyflogi ar sail rhan amser. Bydd y canllawiau yn amlinellu ac yn annog ei bod yn fuddiol cael cyfnod o gyflogaeth barhaus am dymor fel rhan o gyfnod sefydlu.

Cynigion eraill

Mae'r cynigion i:

- ganiatáu hyblygrwydd mewn perthynas â hyd y cyfnod sefydlu y mae'n ofynnol i ANGau ei gwblhau;
- gyflwyno terfyn amser ar gyfer cwblhau sefydlu yn foddhaol a
- chaniatáu ymgymryd â sefydlu mewn UC Dau

yn gofyn bod diwygiadau'n cael eu gwneud i'r trefniadau sefydlu presennol o fewn Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015

Caiff y rhain eu hystyried ymhellach gyda rhanddeiliaid fel y cânt eu gweithredu yn y dull mwyaf effeithiol o fewn amserlen realistig.

Byddwn yn darparu gwybodaeth bellach am y camau nesaf y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd i weithredu a/neu gyflawni'r cynigion hyn, a'r amserlen ar gyfer eu cyflwyno, yn gynnar yn nhymor yr hydref.

Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad

Alex Barons (Ysgol Uwchradd Prestatyn)
ASCL
Caitlin Blackwell (Cyngor y Gweithlu Addysg)
Claire Bradford
Cordelia Parmley-Graham
Cyngor y Gweithlu Addysg
Estyn
Geraint Williams (Coleg Catholig Dewi Sant)
Gwyn Owen (Canolfan Addysg Conwy)
Hayley Blackwell (Ysgol Eirias)
James Brown (Gwasanaethau Addysg a Phlant Cyngor Sir Ddinbych)
James Harris (Uned Cyfeirio Disgyblion Bryn y Deryn)
Jan Hughes (Uned Cyfeirio Disgyblion Bryn y Deryn)
Katy Holloway (Ysgol y Ddraig)
Laura Fry
Laura Salkeld (Ysgol Gynradd Kymin View)
Laura Williams (Ysgol Gynradd Christchurch)
Luke Dempsey (Uned Cyfeirio Disgyblion Torfaen)
Michael Jones
NASUWT Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru
NEU Cymru
Rebecca Shields (Ysgol Gynradd Evenlode)
Richard Drew
Richard Duffy
Rolfe Clarke (Consortiwm Canol De Cymru)
Sian Maredudd
Steven Bradley
Awdurdod Lleol Abertawe
UCAC
Cymorth i Ferched Cymru
Will Barrett (Ysgol Gynradd Peter Lea)